## Gwasanaethau eraill rydym yn eu cynnig

- Gwybodaeth, Cyngor, a Chymorth
- Cymorth gyda diogelu materion oedolion sy'n agored i niwed
- Hyfforddiant ar gyfer gofalwyr
- Hybu iechyd
- Cymorth i gael mynediad at wasanaethau prif ffrwd
- Cyfeirio at asiantaethau eraill
- Gweithio gydag asiantaethau eraill
- Pontio i wasanaethau oedolion

Efallai bydd y CTLD yn rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill. Gellir esbonio hyn i chi ymhellach yn ystod y broses asesu neu'r atgyfeiriad

## Asesu anghenion cymwys

Mae darganfod pa anghenion cymwys sydd gan berson yn dechrau trwy gynnal sgwrs. Yn ystod y sgwrs hwn byddwn yn gofyn beth sydd o bwys i chi. Byddwn yn gofyn am eich amgylchiadau; canlyniadau personol, rhwystrau posib i gyflawni'r canlyniadau hynny, unrhyw risgiau i chi neu i bobl eraill, a'ch cryfderau a'ch galluoedd. Byddwn hefyd yn gofyn am y cymorth rydych yn ei dderbyn eisoes a byddwn yn trafod lle gallwch gael mynediad at y cymorth rydych ei angen

## Amddiffyn pobl rhag cael eu cam-drin.

Rhywbeth sy'n cael ei wneud i berson arall heb eu dealltwriaeth lawn neu heb eu caniatâd sy'n eu niweidio mewn rhyw ffordd yw cam-drin. Gall hyn fod yn un weithred unigol neu'n gyfres o weithredoedd.

Os yr ydych yn cael eich cam-drin neu'n amau bod rhywun rydych yn eu hadnabod yn dioddef camdriniaeth, ffoniwch ganolfan cysylltu Cyngor Sir Penfro ar 01437 764551 a gofynnwch am y **Tîm Diogelu Oedolion.**

### Cwynion a Chanmoliaeth

Rydyn ni bob amser yn ceisio darparu gwasanaethau o safon i oedolion ond ambell dro dydy pethau ddim yn gweithio allan yn iawn; byddwn yn ceisio datrys unrhyw broblemau cyn gynted ag y bo modd.

Os ydych yn fodlon/anfodlon gyda'r gwasanaeth rydych wedi'i dderbyn, mae croeso ichi gysylltu â ni.

**Tîm Llywodraethu Gwybodaeth a Chwynion,**
Neuadd y Sir,
Hwlffordd,
SA61 1TP
**Ffôn:** 01437 775503
**Ffacs:** 01437 776699
**E-bost:**
SocialCareComplaints@Pembrokeshire.gov.uk



# Cymorth i bobl ag anableddau dysgu.



Ceir hefyd
**'Arweiniad Gofal a Chefnogaeth Well'**
ar ein gwefan.

## Amdanom ni

Mae Tîm Cymunedol Sir Benfro ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn dîm aml ddisgyblaeth sy'n cynnwys staff sydd wedi'u cyflogi gan Gyngor Sir Benfro a Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Mae'r tîm yn cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol, Rheolwyr Gofal Asesu a Thîm Iechyd, er enghraifft Nyrsys anabledd dysgu yn y gymuned.

## Beth rydym yn ei wneud

Rydym yn darparu gwasanaeth arbenigol i oedolion 18 mlwydd oed a throsodd sy'n byw yn Sir Benfro ac sydd ag anghenion gofal lles. Gall y tîm gynnig cymorth, gwybodaeth a chyngor am:

- Asesu a chefnogi anghenion lles
- Cyfeirio at asiantaethau eraill
- Trefnu cymorth wedi'i gomisiynu (gall hyn gynnwys seibiant, cyfleoedd cyflogaeth)
- Amrywiaeth o lety â chymorth
- Cyfleoedd Dydd
- Taliadau Uniongyrchol
- Asesiad Gofalwyr

## Asesiad

Y prif waith a ddarperir gan y CTLD yw'r asesiad, rheoli gofal a chymorth nyrsys arbenigol, oherwydd bod gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i gynnig hyn i unrhyw oedolyn lle ymddengys eu bod angen gofal a chymorth.

Gall yr asesiad gael ei gynnal dros y ffôn, ar-lein neu drwy gyfarfod wyneb yn wyneb. Byddwn yn trafod eich lles gyda chi a'r canlyniadau rydych yn gobeithio amdanynt. Byddwn yn edrych ar eich cryfderau a'ch galluoedd yn ogystal â'r cymorth rydych eisoes yn ei dderbyn. Byddwn yn eich cyfeirio at weithwyr proffesiynol eraill pe bai angen asesiadau arbenigol eraill arnoch; **er enghraifft ar gyfer:** Epilepsi, Cymorth Bwyta ac Yfed, Hwyluso Iechyd, Ymwybyddiaeth Synhwyraidd, Gwasanaethau Seicolegol ac ati.

Os na all eich anghenion lles gael eu diwallu mewn unrhyw ffordd arall, byddwn yn cytuno ar gynllun gofal a chymorth gyda chi.

## Sut ydym yn gwneud hyn?

Atgyfeiriad
Gall unrhywun wneud atgyfeiriad drwy'r ganolfan gyswllt ar 01437 764551.

Bydden nhw'n trafod y materion rydych chi'n teimlo eich bod angen cymorth gyda nhw gyda chi, a'ch cyfeirio at wasanaeth cymunedol lle bo'n bosib. Os oes angen asesiad pellach arnoch, bydd eich manylion yn cael eu hanfon ymlaen at y CTLD

## COFIWCH:

Mae'n bosib bydd eich cynllun Gofal a Chymorth ond yn rhedeg am gyfnod byr i'ch helpu i adennill eich annibyniaeth

**Cynllun gofal a chymorth**
Byddwn yn creu'r cynllun gofal a chymorth gyda chi. Bydd y cynllun yn datgan;

- Pa gymorth fyddwch yn ei dderbyn
- Pwy fydd yn darparu'r cymorth
- Sut bydden nhw'n darparu'r cymorth.

**Adolygiad cynllun gofal a chymorth**

- Byddwn yn cwrdd â chi i weld a ydych wedi cael y canlyniadau roeddech yn gobeithio amdanynt
- Byddwn yn edrych i weld a oes angen i unrhywbeth arall newid.
- Bydd y cynllun cymorth naill ai yn cael ei ddiweddaru, neu byddwn yn cytuno bod ein gwaith wedi dod i ben

**Terfynu'r cynllun cymorth a gofal**

- Byddwn yn dweud wrthych chi pan fydd ein gwaith yn dod i ben
- Gyda'ch caniatâd, byddwn yn dweud wrth bobl eraill sydd yn eich adnabod hefyd.
- Byddwn yn sicrhau eich bod yn gwybod beth yw manylion y ganolfan gyswllt pe bai chi ein hangen ni yn y dyfodol.

**Cysylltwch â'r ganolfan ar 01437 764551**